

Monitro halogion cemegol

Sut i ganfod a monitro halogion cemegol a chanllawiau ar y terfynau perthnasol.

Y broses fonitro

Mae molysgiaid dwygragennog byw yn bwyta plancton o'r dŵr o'u cwmpas sy'n golchi trwy eu cynefin. Gall y broses fwydo hon arwain at lygryddion amgylcheddol yn cronni yn y pysgod cregyn.

Mae deddfwriaeth yn gofyn am fonitro ardaloedd cynhyrchu pysgod cregyn dosbarthedig am halogion cemegol.

Caiff ein hardaloedd cynhyrchu pysgod cregyn dosbarthedig eu monitro gan ein rhaglenni monitro rheolaeth swyddogol. Mae hyn yn sicrhau nad yw lefelau halogi cemegol mewn molysgiaid dwygragennog byw yn uwch na'r terfynau rheoleiddio.

Mae swyddogion samplu yn casglu samplau pysgod cregyn a'u cyflwyno i labordai rheoli swyddogol. Yn y labordy, cynhelir profion cemegol yn unol â meini prawf a nodir mewn deddfwriaeth i ganfod lefelau o:

- fetelau trwm
- hydrocarbonau aromatig amlgylchredol
- diocsinau os oes angen biffenylau polychlorinedig (PCB) os oes angen

Terfynau ar gyfer halogion cemegol

Metalau trwm:

- Plwm – 1.5mg/kg
- Cadmiwm – 1.0mg/kg
- Mercwri – 0.5mg/kg

Hydrocarbonau aromatig amlgylchredol:

- Benzo(a)pyrene – 5.0µg/kg
- Swm benzo(a)pyrene, benz(a)anthracen, benzo(b)flworanthen a chrysene – 30.0µg/kg

Diocsinau a biffenylau polychlorinedig sy'n debyg i ddiocsinau:

- Swm y deuocsinau – 3.5pg/g o bwysau gwlyb
- Swm y diocsinau a biffenylau polychlorinedig sy'n debyg i ddiocsinau – 6.5pg/g o bwysau gwlyb
- Swm PCB28, PCB52, PCB101, PCB138, PCB153 a PCB180 – 75ng/g o bwysau gwlyb

Rhaglen fonitro

Bob blwyddyn rydym ni'n adolygu'r ardaloedd cynaeafu dosbarthedig presennol a dewis

safleoedd i'w samplu yn ôl yr angen. Mae'r adroddiadau yn cael eu cyhoeddi a'u mapio i ddangos cydymffurfiaeth, dyddiadau samplu a math o ddadansoddi.

Canlyniadau halogi cemegol

- [Mewn codau lliw yn ôl blwyddyn](#)
- [Mewn codau lliw yn ôl math o ddadansoddiad](#)
- [Mewn codau lliw yn ôl cydymffurfiaeth](#)